Dŵr Cymru
Welsh Water

# CODI I'R HER

Ein Cynllun Busnes 2025-30



Diweddariad i'n cwsmeriaid

# EIN CYNLLUN BUSNES 2025-30

## Dros y pedair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gweithio i ddatblygu ein Cynllun Busnes 2025-30.

Rydyn ni wedi gwrando ar gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ac mae ein Cynllun wedi cael sêl bendith Ofwat, ein rheoleiddiwr, erbyn hyn.

Hwn yw ein cynllun mwyaf uchelgeisiol erioed, sydd wedi denu cyfradd cymeradwyaeth o 81% gan ein cwsmeriaid – mwy nag unrhyw gwmni dŵr arall.

Ond mae'r gwaith caled yn dechrau nawr – wrth gyflawni'r gwelliannau sydd yn y Cynllun a gwireddu ein haddewidion i chi.

I gyflawni hyn, byddwn ni'n buddsoddi £4.2 biliwn – mwy na dwbl y swm a fuddsoddwyd yn 2020-25.

Bydd hyn yn creu gwasanaethau mwy dibynadwy, amgylchedd mwy iach, ac yn ein helpu ni i reoli effaith risgiau fel y tywydd eithafol yn sgil newid hinsawdd.

Nid ar chwarae bach fydd cyflawni hyn, ac fe fydd hi'n cymryd hyd at 5 mlynedd i ni roi popeth ar waith, a bydd llawer o brosiectau'n parhau'r tu hwnt i hynny hefyd.



# SUT Y BYDD EIN CYNLLLUN YN GWNEUD GWAHANIAETH ERBYN 2030



### 1 Lleihau gorlifoedd storm

£1.1 biliwn i dargedu 30 o weithrediadau fesul gorlif storm, neu ostyngiad o 30%.

### 2 Afonydd mwy iach

£184 miliwn i leihau faint o faetholion sy'n cael eu rhyddhau i afonydd.

### 3 Llai o lygredd

Gostyngiad cyffredinol o 30% mewn digwyddiadau o lygredd.

### 4 Agored a gonest

Cyhoeddi'r data o'n hoffer monitro ansawdd dŵr fel y gall pawb weld beth sy'n digwydd yn ein hafonydd.

### 5 Sero Net

Buddsoddi mewn atebion arloesol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn 30 o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff mwyaf erbyn 2030.

### 6 Lleihau gollyngiadau

Cwtogi 24% ar lefelau gollyngiadau.

### 7 Gwella iechyd ein rhwydwaith

Sicrhau gostyngiad o 6% yn nifer y carthffosydd sy'n chwalu, a gostyngiad o 9% yn nifer y prif bibellau dŵr sy'n byrstio.

### 8 Gwella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid

Gostyngiad o 57% mewn cysylltiadau ynghylch ansawdd dŵr tap a gostyngiad o 79% mewn ymyriadau â chyflenwad dŵr.

### 9 Cymorth gyda biliau

£73 miliwn mewn tariffau cymdeithasol i gynorthwyo cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr.

### 10 Lleihau llifogydd

Sicrhau gostyngiad o 24% mewn llifogydd carthion a 22% mewn llifogydd carthion allanol.

### 11 I gyflenwadau

Helpu cwsmeriaid i gwtogi 7% ar eu defnydd o ddŵr gartref gan fuddsoddi £120 miliwn mewn mesuryddion.

### 12 Diogelwch digidol

Buddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf i gadw ein seilwaith a data cwsmeriaid yn ddiogel.

### 13 Diogelwch Cronfeydd Dŵr

Buddsoddi £70 miliwn er mwyn gwella argaeau'r cronfeydd dŵr.

### 14 Rhoi rhywbeth nôl i gymunedau

Cronfa Gymunedol ar gael i gefnogi mentrau lleol

### 15 Cynorthwyo twf economaidd

Cynhyrchu £1bn y flwyddyn at economi Cymru, gan gyflogi bron i 4,000 a chynnal 5,000 o swyddi pellach trwy gyflenwyr a chontractwyr.









# BETH MAE HYN YN EI OLYGU I FILIAU CWSMERIAID?

## Bydd angen i filiau cwsmeriaid gynyddu o'r flwyddyn hon ymlaen er mwyn helpu i gyflawni'r buddsoddiad yma.

Rydyn ni'n gwybod na fydd hynny'n hawdd ond mae angen i ni sicrhau bod pob un geiniog yn cael ei gwario'n dda.

I'n helpu ni i gyflawni hyn oll, byddwn ni'n cynyddu biliau cwsmeriaid 27% yn 2025, ac wedyn ar gyfradd is o lawer dros y 4 blynedd sy'n dilyn.

Byddwn ni'n ehangu ac yn parhau â'n cymorth ariannol i gwsmeriaid sydd ar yr incymau isaf sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau, ac mae £73 miliwn wedi ei neilltuo i dalu am dariffau cymdeithasol ar gyfer cwsmeriaid cymwys.

Bydd yna gymorth arall ar gael i'n holl gwsmeriaid hefyd, gan gynnwys seibiannau a chynlluniau talu.

